

Biodynwarded yw dylunio a chynhyrchu deunyddiau, strwythurau, a systemau sy'n seiliedig ar atebion a fabwysiadwyd gan natur.

Mae llawer o organebau byw yn defnyddio pŵer gwynt ar gyfer hedfan neu gleidio, i wasgaru hadau neu i gadw'n oer. Dyma rai delweddau a allai fod o gymorth wrth ddylunio tyrbin gwynt i gynhyrchu trydan ond mae llawer mwy o syniadau ym myd natur a allai fod yn ysbrydoliaeth.

Mae gwiwerod yn hedfan yn defnyddio eu fflapiau mawr o groen i gleidio o goeden i goeden. Nid ydynt yn fflapio eu hadenydd ac yn hedfan ond mae ymwrthedd aer yn cadw'r gwiwerod yn yr awyr am fwy o amser.

Mae hadau sycamorwydden yn defnyddio gwrthiant aer i ddal y gwynt. Mae'r hadau'n cael eu gollwng, yn dechrau cylchdroi ac yn cael eu gwasgaru gan awel i dyfu yn y gofod heb unrhyw gystadleuaeth gan y rhiant goeden.

Datblygodd adar blu gwag ysgafn er mwyn hedfan. Maent yn gorgyffwrdd i sicrhau bod gwrthiant aer yn uchel ond mae eu meddalwch yn golygu bod hedfan hefyd bron yn dawel - gan ei gwneud hi'n haws hela neu osgoi cael eu hela.

Mae hadau dant y llew hefyd yn defnyddio ymwrthedd aer i ddal y gwynt. Mae'r hadau'n ymddwyn fel parasiwtiau bach i gael eu gwasgaru gan awel. Maent yn niferus, ysgafn a blewog.

